| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Hydref 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus** |
| | **Angela Loftus, Rheolwr Cynllun Datblygu a Pholisi** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Kirsty Henderson, Swyddog Prosiect Cadwraeth** |
| **Teitl:** | **Canllaw Cynllunio Atodol Ardaloedd Cadwraeth – Ymgynghori drafft** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Chanllaw Cynllunio Atodol (CCA) Ardaloedd Cadwraeth drafft a fydd, o'i fabwysiadu, yn cael ei ddefnyddio i helpu i reoli ardaloedd cadwraeth yn rhagweithiol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, a diweddaru canllawiau cenedlaethol, mae angen diweddaru'r CCA Ardaloedd Cadwraeth er mwyn cynnig arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm wrth yr adroddiad hwn (Atodiad 1).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y CCA Ardaloedd Cadwraeth drafft fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl ar 4 Mehefin 2013, cytunodd y Cyngor i gario'r gyfres bresennol o CCAau, gan gynnwys CCA 13 - Ardaloedd Cadwraeth, ymlaen. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad

neu eu hymddangosiad. Mae’r canllawiau cenedlaethol wedi eu diweddaru ers i’r CCA gwreiddiol cael ei fabwysiadu yn 2003, mae’r rheiny’n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru (2014); dogfen bolisi Egwyddorion, Polisïau a Chanllawiau Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn ffordd Gynaliadwy (2011) Cadw a TAN 12. Mae English Heritage hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar Reoli Ardal Gadwraeth: 'Understanding Place: Conservation Area Designation, Appraisal and Management’ (2011). Dylid nodi bod dogfen English Heritage yn unig yn berthnasol i Loegr yn unig a bod rhai o'r rheolau a’r rheoliadau yn wahanol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n cynnwys egwyddorion sy’n gyffredin i reoli ardal gadwraeth. Mae yna wahaniaethau hefyd rhwng polisïau blaenorol y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) a'r CDLl, a all effeithio ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth. Mae'n rhaid cynhyrchu CCA wedi ei ddiweddaru ar gyfer y maes yma. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth asesu ceisiadau sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth.

4.2. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 33 o ardaloedd cadwraeth. Maent yn bodoli yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd gwledig ac mae’r nodweddion pensaernïol a hanesyddol pob ardal gadwraeth yn wahanol ac yn unigryw. Bydd darparu arweiniad cadarnhaol a chlir mewn CCA yn ategu polisïau perthnasol y CDLl ar barchu natur unigryw, datblygu cynaliadwy, hybu economi gynaliadwy a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

4.3. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn o leiaf 8 wythnos, yn dechrau o ganol fis Tachwedd 2014. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda’r CCA terfynol ar gyfer ei fabwysiadu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad ar ardaloedd cadwraeth. Mae rheoli ardaloedd cadwraeth mewn modd cadarnhaol trwy'r broses gynllunio yn ymwneud â dau bolisi corfforaethol - 'Datblygu'r economi leol', a 'Strydoedd glân a thaclus'.

5.2 Mae lleoliad a nifer yr ardaloedd cadwraeth yng nghanol trefi'r sir ac yn y rhan fwyaf o bentrefi’r sir, yn ystyriaeth allweddol ar gyfer sicrhau bod cynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth yn cael eu rheoli mewn ffordd gadarnhaol yn unol â pholisïau defnydd tir eraill, er mwyn cadw eu cymeriad a’u hedrychiad arbennig sy'n gwneud trefi ac ardaloedd gwledig Sir Ddinbych yn unigryw. Mae rheolaeth briodol o'r adeiladau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Blaenoriaethau Corfforaethol - 'Strydoedd Glân a Thaclus' a 'Datblygu'r Economi Lleol'. Mae blaenoriaeth ‘Strydoedd Glân a Thaclus' yn datgan bod Sir Ddinbych yn elwa ar gael tirwedd ddeniadol yn ogystal ag

amrediad o drefi a phentrefi hanesyddol a diwylliannol. Mae ansawdd y lle cyhoeddus hwn yn allweddol i annog pobl i symud i mewn i'r sir, yn ogystal â denu twristiaid sy'n helpu i gefnogi'r economi leol. "

**6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chytuno ar fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y CCA yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol ac ni fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn. Mae'r egwyddor o reoli newid priodol mewn ardaloedd cadwraeth wedi ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth genedlaethol a'i chefnogi drwy fabwysiadu'r CDLl. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad pellach ar hyn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar y CDLl ym Mai 2011.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond mae ymgynghori anffurfiol wedi ei gynnal gyda swyddogion yn y Tîm Rheoli Datblygu.

8.2 Mae mewnbwn Aelodau ar gynnwys y CCA hefyd wedi cael ei ddarparu trwy Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac fe id oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

10.1 **Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Heb ganllawiau cyfredol mae yna risg na fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu polisïau'r CDLl yn effeithiol. Mae CCA Ardaloedd Cadwraeth yn rhoi arweiniad clir a chryno yn seiliedig ar y polisi cenedlaethol cyfredol. Bydd cyflwyno ceisiadau cynllunio gwybodus, mewn perthynas â datblygiad sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth, yn gwella'r broses wneud penderfyniadau o ran cyflymder ac ansawdd canlyniadau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

11.2 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).